# YR YMOFYNYDD

RHYDDID · GWIRIONEDD · CARIAD

Y Gwirionedd a'ch Rhyddha chwi.

RHIF I.] IONAWR 1919 [PRIS 2g.

.. CYNHWYSIAD. ..

EDYN FFYDD.
EIN TESTAMENT NEWYDD.
A YW UNDODIAID YN GRISTIONOGION?
MYND YN HEN.
"HANNER CAN PWYNT DROS UNDODIAETH."
MARWGOFION.
MANION AC HANESION.

*Llandyssul:*
*Argraffwyd gan J. D. Lewis, Gwasg Gomer.*

# YR YMOFYNYDD.

Golygydd — PARCH. T. ARTHUR THOMAS, Llandyssul.

Pris 2g. y mis; drwy y *Post*, 2s. 6c. y flwyddyn. Danfonir 6 copi ac ychwaneg yn ddidraul drwy y *Post*.

Telerau i Ddosparthwyr, 13 am bris dwsin o gopiau

Yr erthyglau i fod yn llaw y Golygydd erbyn y 10fed o bob mis, a goheb iaethau eraill erbyn y 15fed.

**Yr archebion a'r taliadau i'w hanfon i'r Cyhoeddwr, Mr. J. D. LEWIS, Swyddfa'r "Ymofynydd," Llandyssul.**



## Mourning Cards . . .

**Neatly executed.**

**A Speciality in Portrait Printing.**

Samples sent on application.

**J. D. LEWIS, YMOFYNYDD OFFICE, LLANDYSSUL.**

## T. E. Jones & Co.,

— LLANDYSSUL. —

***Flour Millers - - -***
***& Provender Millers, - -***
***Merchants, - - - -***
***Wholesale Grocers, &c. &c.***

# YR YMOFYNYDD.

*Cylchgrawn Misol y . . .*
*Gymdeithas Undodaidd Gymreig.*

*"Profwch bob peth, deliwch yr hyn sydd dda."—Paul.*

CYFRES NEWYDD. IONAWR, 1919. [CYF. XIX. RHIF 1.

## *AR EDYN FFYDD.*

### ADGOFION.

YN dystaw ganu ym mhob bron,
Mae cân anwyliaid cu ;
Ond ni chawn ateb ganddynt hwy,
Nad faint y galwn ni ;
Hwy ddont tiwy'r taw i fynwes dyn ;
Fel cynt, y gwelwn hwy—
Y dewr a'r doeth, y mwyn a'r pur,
Er nad y'nt yma mwy.

Mae'n anhawdd codi eu beichiau hwy,
Rai anwyl, dewr a phur ;
Mor ddysglaer gwnelent fywyd oll,
Mor ysgafn gwnaent eu gur :
Ond da yw cofio am danynt mwy,
Pan fo'n trallodau'n fawr ;
Rho'wn glod i Dduw am danynt oll,
Er nad y'nt yma 'nawr.

Mwy anwyl imi yw'r byd draw,
O'u bod hwy yno'n byw ;
Ni fydd eu canlyn mor anhawdd,
Nad beth eu tynged mwy ;
Nis gallant fod lle nad yw Duw,
Ar unrhyw dir na môr ;
Nad beth a ddaw, mae'th gariad Di
Yn para byth, ein Ior.

J. W. CHADWICK.
(*Cyf.* R. J. J.)

# EIN TESTAMENT NEWYDD.

---

NID oes amser hir er pan ystyrrid y Beibl, bron yn gyffredinol, fel llyfr anffaeledig, wedi ei ysgrifennu, os nad yn uniongyrchol gan Dduw ei hun, eto gan ddynion oeddynt dan gyfarwyddyd uniongyrchol Duw, wedi eu hysbrydoli mewn modd eithriadol i wneud y gwaith.

Y mae'r olwg hon ar y Beibl wedi syrthio i'r cysgod, byth i ddychwelyd i fri a goleuni dydd mwy. Gall fod yn oedi ei ddiflaniad mewn ambell i gilfach dywell, i'r rhai nad yw gwybodaeth berffeithiach ein dyddiau ni eto wedi treiddio. Eithr i bob meddwl diwylliedig, sydd wedi ei feddiannu gan ryw fesur o ysbryd yr oes, sydd wedi ymryddhau o grafangau rhagfarn ddall, y mae'r fath olwg ar y Beibl ag a ddesgrifir uchod yn amhosibl heddyw.

Cyfnewidiad—ie, chwyldroad—wedi ei ddwyn oddiamgylch tu fewn i gyfnod cymharol fyr o amser yw hwn. Beth sydd wedi ei achosi? Ymchwiliadau dynion dysgedig y ddwy ganrif ddiweddaf. Perthyn y dynion hyn i bob adran o'r Eglwys Gristionogol. Ymroddasant i'w gwaith gyda ffyddlondeb edmygadwy. Bu raid i lawer o honynt oddef cryn dipyn o erledigaeth am eu hyfdra. A dylai pob dyn a gar ryddid, ac a ddymuna weled cynnydd yn mhob math ar wybodaeth, ddal y bobl hyn mewn coffadwriaeth barchus ar gyfrif yr hyn a wnaethant, a gwneud a allo i boblogeiddio ffrwyth eu hymchwiliadau.

Dyna amcan y gyfres erthyglau hyn. Ni ellir gwneud rhagor na phrin cyffwrdd a'r mater; eithr gobeithiaf allu cyffwrdd ag ef mewn modd a ddeffry chwilfrydedd yn y darllenydd a bair iddo wneud y pwnc yn destyn myfyrdod manylach a mwy trwyadl. O wneud hyn fe ddaw'r Testament Newydd yn Destament *Newydd* mewn gwirionedd unwaith eto—yn lyfr y teimla'r darllenydd o hono ddiddordeb newydd ynddo.

Gwneir ein Testament Newydd i fyny o saith ar hugain o lyfrau. Gellir eu dosrannu, yn ol natur eu cynnwys, i dri dosbarth, fel hyn: (1) Y llyfrau Hanesyddol. Y mae pump yn y dosbarth hwn—y pedair Efengyl a'r Actau. (2) Yr Epistolau, nifer y rhai yw un ar hugain. (3) Un llyfr o weledigaethau—y Datguddiad.

Y mae'r llyfrau hyn wedi eu hysgrifennu gan amryw bersonau, ar wahanol adegau, am resymau a than amgylchiadau amrywiol iawn eu natur. Pa faint a wyddom am awdwyr, am gyfansoddiad, ac am ddyddiad y llyfrau hyn?

Aeth Iesu allan ar ei neges genhadol pan oedd, dyweder, oddeutu deg ar hugain oed. Bu yn pregethu am o flwyddyn i ddwy, efallai dair, ni ellir dweyd yn gywir. Ar derfyn y cyfnod hwn, gan nad faint ei hyd, cafodd ei groeshoelio. Nid oes gennym hanes fod Iesu wedi ysgrifennu dim. Ni ddarfu i'w ddisgyblion, ychwaith, tra fu efe gyda hwy, ysgrifennu dim. Ymddiriedodd ei genadwri i gad-

wraeth cof ei ddisgyblion. Dyna fu'r cyfrwng i gadw hanes ei fywyd a'i addysg rhag syrthio o hono i ddifancoll—cof ei ddisgyblion.

Parhaodd hyn am tuag ugain mlynedd, mwy neu lai. O'r adeg honno allan dechreuodd y lenyddiaeth sydd yn cyfansoddi ein Testament Newydd ni wneud ei hymddangosiad. Parhaodd y llyfrau i ddod i fodolaeth, o un i un, am y can mlynedd dilynol—hyd tua hanner yr ail ganrif, efallai. Ar yr adeg honno—hanner yr ail ganrif—nid oedd y llyfrau hyn wedi eu dwyn at eu gilydd fel ag i wneud un llyfr, fel y maent yn awr. Bu hyn yn waith amryw ganrifoedd ym mhellach.

Y mae hanes y modd y dygwyd hwy at eu gilydd fel ag i ffurfio ein Testament Newydd ni yn hanes diddorol. Nid i faes Beirniadaeth Feiblaidd y perthyn yr hanes hwn, fodd bynnag, eithr i faes Hanesiaeth Gristionogol; a rhaid ei adael ar y neilltu yn awr.

Yr wyf yn myned i osod ger bron y darllenydd yr hyn a broffesir ei wybod am y lenyddiaeth hon yn y drefn a ganlyn: (1) Yr Epistolau; (2) Yr Efengylau; (3) Yr Actau; a'r (4) Datguddiad. Dechreuaf gyda'r Epistolau am mai rhai o honynt hwy oedd y cyntaf i wneud eu hymddangosiad.

---

## AR Y DDAEAR TANGNEFEDD.

GYNT ganol nos fe glyw'd yn glir
Yr hen ogonawl gân,
Sain engyl yn ymwel'd â'n tir,
A'u heur delynau glân;
Tangnefedd, 'wyllys da ar goedd,
O rad ein Brenin cu,
A'r byd mewn taw difrifol oedd
Yn gwrando'r engyl lu.

Maent eto'n d'od trwy holltau'r nen,
Ar edyn hwyliog hedd,
Ac eto'u nefol gân uwch ben,
Siriola'r gwan eu gwedd;
Uwch meusydd isel, trist y byd,
Ar edyn llon mae'r llu,
Ac uwch ei Fabel sain o hyd
Mae cân yr engyl cu.

Mae'r byd dan bechod wedi bod
Yn dyoddef oesoedd hir,
Dan seiniau engyl treiglodd rhod
Canrifoedd poen a chur;
Yn swn ei frwydrau, dyn nis clyw'r
Bêr gân gyhoedda'r llu;
Dystewch eich cyffro—ynfyd yw:
Clywch gân yr engyl cu.

Chwi, dan flinderus feichiau'r byd,
Sy'n crymu tua'r llawr,
Yn dringo'r llwybrau serth o hyd
Mewn poen a chystudd mawr;
Draw, gwelwch hin mwy hyfryd sy'n
Neshau trwy'r t'wyllwch du;
Gorphwyswch 'nawr, eneidiau blin:
Clywch gân yr engyl cu.

Can's wele'r dyddiau'n brysio draw,
A ragfynegwyd gynt,
Pan gyda chylchdro'r blwyddi daw'r
Oes euraidd ar ei hynt;
Hoff felys hedd a leinw gol
Y ddae'r â llawen lu,
A'r holl fyd mawr adseina 'nol
Bêr gân yr engyl cu!

E. H. SEARS (*Cyf. R. J. J.*).

## A YW UNDODIAID YN GRISTIONOGION?

DYMA bennawd erthygl arweiniol y "*Christian Commonwealth*" am Hydref yr 16eg. Achoswyd yr erthygl gan amgylchiad a ddigwyddodd ym Manceinion ychydig amser yn ol. Yno ffurfiwyd "Cyngor o gynulleidfaoedd Cristionogol Manceinion a Salford," ond ar bleidlais y mwyafrif penderfynwyd esgymuno cynnulleidfaoedd Undodaidd a'u gweinidogion.

Amcan arbennig y Cyngor oedd ceisio "dwyn yn agosach sefydliad Teyrnas Dduw, trwy ddwyn tystiolaeth i ddelfryd foesol Cristionogaeth a'i meithrin yn ei chyflawnder." Pe amcan y Cyngor fyddai cefnogi a lledaenu syniadau diwynyddol anghydnaws a'r ffydd Undodaidd gellid esgusodi'r esgymuniad, ond mae esgymuno enwad o gymdeithas foesol am reswm diwynyddol yn beth newydd mewn culni.

Yn y gorffenol ni fu yr enwadau iawnffyddol yn fyr o dalu llawer

TEYRNGED UCHEL I DDELFRYDAU A CHYMERIAD MOESOL UNDODIAID

fel cyfangorff, a'r dystiolaeth gyffredin oedd, nad beth am ddiwynyddiaeth yr Undodwr, fod ei ddylanwad moesol yn iachus a dyrchafol. Yn wir, ni wnaeth un enwad, yn ol ei rifedi, fwy i ddyrchafu moesau a chyflwr cymdeithasol ein trefi a'n dinasoedd, ac y mae haelioni dynion gore'r enwad yn ddiarebol.

Gwyr yr enwadau iawnffyddol, pan fo arnynt angen tanysgrifiadau at achosion neilltuol, fod gan Undodiaid cyfoethog galonnau hael, a bod eu harian yn berffaith dda. Y maent wedi manteisio ar y ffaith gannoedd o weithiau, eto ni phetrusant gau dorau "Cynghorau Cristionogol" yn erbyn cymwynaswyr cymdeithas! Gofynnaf, "ai dyna beth yw Cristionogaeth yr Iawnffyddwr?"

Dywed ysgrifennydd yr erthygl yn y "*Christian Commonwealth*" ei bod yn rhy ddiweddar yn y dydd i ail-godi yr hen gwestiwn.

"PA UN AI CREDO NEU GYMERIAD

sydd yn rhoddi i ddyn yr hawl i alw ei hun yn Gristion?" Ei farn ef yw mai cymeriad moesol uchel—ymgorfforiad o egwyddorion Crist yw nodwedd arbennig y gwir Gristion. Yn wir, dywed yr Iesu yr un peth; "wrth eu ffrwythau yr adnabyddwch hwynt"—*nid wrth eu credoau.*

Awgryma awdur yr erthygl mai doeth efallai fyddai gadael o'r neilltu yr enw "Undodiaeth" am fod rhagfarn a gelyniaeth henafol yn glynu wrth y gair. Dywed y Parch. F. Y. Leggatt, gweinidog Annibynol ym Manceinion mai gwelliant pellach fyddai gadael o'r neilltu hefyd y gair "Trindodiaeth." Ni cheir un o'r ddau air yn y Testament Newydd, ac nid oes iddynt le yn Efengyl yr Iesu.

Dywedaf finnau mai

"Nid mewn Geiriau ond yn Ysbryd Dynion

y mae'r drwg. Os mai rhagfarn yn unig sydd yn erbyn unrhyw air, nid yw hynny yn rheswm yn y byd dros ei adael o'r neilltu.

Oddiar ddechreu'r rhyfel yr ydym wedi sylwi ar ddwy duedd wahanol yn y byd Cristionogol.

Yn y lle cyntaf gwelir tuedd i lydanhau yr ysbryd brawdgarol. Ar y dechreu ni chaniateid i weinidog Undodaidd i wasanaethu gyda'r Y.M.C.A. (Cymdeithas Gristionogol y Dynion Ifainc). Cymdeithas berthynol i Eglwys Loegr yw hon. Buan llydanwyd cylch y gymdeithas, ac agorwyd y dorau i weinidogion Undodaidd. Efallai mai prinder gweithwyr teilwng o ymddiried fu'r achos o hyn. Fodd bynnag, heddyw derbynnir Undodiaid fel gweithwyr yn y Gymdeithas ar faes y gâd.

Ar y 6fed o Hydref pregethodd y Parch. G. W. Hudson Shaw, Rheithor Eglwys St. Botolph, Llunden, yn y City Temple—un o eglwysi Ymneilltuol a rhyddfrydig y ddinas; ac ar y Sul cyn hynny bu Miss Maude Royden, gweinidoges gynnorthwyol y City Temple yn pregethu ym mhwlpud Eglwys St. Botolph. Peth lled anarferol oedd i weinidog Ymneilltuol bregethu yn Eglwys Loegr, a dyma'r tro cyntaf mewn hanes, mi gredaf, i fenyw gael cennad i draethu ei chenadwri mewn pwlpud Anglicanaidd.

Gallem feddwl wrth hyn fod

Yr Ysbryd yn Llydanu,

ond cofier, mai o fewn y cylch Iawnffyddol yn unig y cymerodd hyn le. Ofnaf nad yw'r teimlad o anfrawdoldeb at Undodiaid wedi llareiddio llawer.

Gallwn nodi un eithriad ganmoladwy. Yn Bolton, flwyddyn yn ol, sefydlwyd Cyngor o Eglwysi Cristionogol, a gwahoddwyd yr Undodiaid yn aelodau o hono. Clywaf o lawer rhanbarth, fodd bynnag, mai tueddu i gulhau mae'r ysbryd at Undodiaeth; codir y rhagfuriau yn lle eu darostwng. Efallai i gyffro a chynnwrf y rhyfel beri i rai ofni fod sylfeini'r ffydd yn rhoi ffordd, a'u tueddu i lynu yn fwy cadarn yn yr hen gredoau oeddynt yn dechreu ymddihatru oddi am danynt.

Dywedodd rhai ar ddechreu'r rhyfel mai

O'r Almaen y daeth Diwynyddiaeth Ryddfrydig,

a'i bod fel popeth arall ddaeth o'r wlad honno yn bwdr o'r gwreiddyn. Esgus lled dlawd oedd hynny dros estyn prydles credoau cyfeiliornus —*Prwssiaeth mewn crefydd* y galwodd un gweinidog hyn. Y gwir yw hyn, gwnaeth llawer proffeswr yn yr Almaen ei ran er lledaenu diwynyddiaeth ryddfrydig, ond mae'r eglwysi yn yr Almaen mor

iawnffyddol eu credoau ac eglwysi'r wlad hon. Nid diwynyddiaeth yr Almaen fu'n achos o'r rhyfel. Mwy cywir fyddai olrhain ei darddiad i ddosbarth o ddynion yn y wlad honno sydd wedi cefnu ar Gristionogaeth mewn unrhyw ffurf—materolwyr noeth.

Rhydd awdur yr erthygl a nodais bwyslais trwm ar y ffaith fod delfrydau moesol yr Undodiaid yn drwyadl Gristionogol. Nid yw hyn ond rhan o'r gwirionedd. Traethwn i'r byd fod ein syniadau diwynyddol hefyd yn hollol Gristionogol, wedi eu sylfaenu ar addysgiadau'r Iesu ei hun fel y cofnodir hwy yn yr Efengylau, yn neilltuol y tair Efengyl gyntaf.

### Y Prif wahaniaeth rhwng Undodiaid ac Iawnffyddwyr

yw hyn, fod Undodiaid yn sefydlu eu daliadau crefyddol yn bennaf ar addysgiadau Crist, a'r Iawnffyddwyr yn sefydlu eu credoau hwy yn bennaf ar Epistolau Paul.

Pob parch i'r Apostol Paul, yr oedd yn ddyn o athrylith ac ysbryd ardderchog, ond nid oes gennym un prawf iddo erioed glywed na gweled Iesu Grist yn y cnawd, ac nid oedd y teimlad gore yn bodoli rhyngddo ef a disgyblion yr Iesu, am gryn amser beth bynnag. Felly ni chafodd efe y fantais ore i wybod a deall cenadwri'r Iesu. Nid ei fai ond ei anffawd ef oedd hyn.

Glynodd llawer o hen athrawiaethau y grefydd Iddewig ym meddwl apostol mawr y cenhedloedd, a'r rhai hynny yw sail llawer o gredoau yr eglwysi iawnffyddol heddyw. Ai nid mwy cywir fyddai i'r rhai sydd yn seilio eu diwynyddiaeth ar athrawiaethau Paul yn hytrach nag eiddo'r Iesu i alw eu hunain yn ddisgyblion Paul ac nid yn ddisgyblion Crist? Ai nid oes sail lawer mwy cadarn gan Undodiaid i wrthod yr enw Cristionogion i ganlynwyr Paul, nag sydd gan ganlynwyr Paul i wrthod yr enw Cristionogion i Undodiaid? Er hyn, pell fyddom ni o'r dueddfryd i esgymuno eraill o'r gorlan, er nad yw eu hathrawiaethau yn gwbl Gristionogol.

Y mae rhai o ddarllenwyr yr Ymofynydd yn cofio pregeth y diweddar Barch. T. T., Pantydefaid, ar y testun

### "A oedd Iesu Grist yn Gristion?"

Testun ffol, rhyfygus, meddai rhai, ond nid dyna farn y rhai glywsant y bregeth. Pe deuai'r Iesu yn ol i'r byd heddyw, a cheisio o hono am aelodaeth eglwysig gyda rhyw enwad iawnffyddol, gofynnid iddo lawer o holiadau er mwyn profi iachusrwydd ei ffydd. Mor bell ag y gallwn ni gasglu oddiwrth yr Efengylau nis gallai yr Iesu dderbyn erthyglau ffydd yr eglwysi, ac mor sicr a hynny cawsai ei droi o'r neilltu yn ei ymgais am aelodaeth. Mewn geiriau eraill, nid oedd Iesu Grist yn gristion yn ol safon llawer o'r eglwysi iawnffyddol heddyw.

Yng ngwyneb hyn nid oes achos digalonni os y gwrthodir yr enw

Cristionogion i ni. Fel gwrthodedigion yr ydym yng nghymdeithas barchus yr Iesu ei hun. Mae gwirionedd a chyfiawnder yn sicr o orchfygu yn y diwedd. Gwnawn ein dyledswyddau yn ffyddlon nes y rhydd Duw i ni'r fuddugoliaeth yn ei amser da ei hun.

LLAIS O'R GOGLEDD.

---

## MYND YN HEN.

Ebe Oliver Wendell Holmes: "Mae pob dyn yn synnu pan glywa rywun yn son am dano fel "hen wr." Mae mynd yn hen yn dwyn gydag ef ddadfeiliad yr adeilad allan, a ddarlunir mor fyw gan ysgrifennwr llyfr y Pregethwr. Ni wn i ddim am un desgrifiad mwy byr a chryno o'r cyflwr hwnnw yn holl faes llenyddiaeth. Mae mynd yn hen yn awgrymu'r amser pan y temtir dyn i son am "y dyddiau blin."

Nid y llesgedd corff hwn chwaith yw y peth tristaf yn mherthynas i henaint. Mae mynd yn hen yn awgrymu amser pan mae'r dychymyg yn nychu, y rheswm yn tramgwyddo, a'r cof yn pallu—amser pan y mae'r meddwl yn colli archwaeth at fyfyrdod—pan y mae gallu cymhathol yr enaid yn colli ei werth. Dwg hyn oll feddyliau tristach fyth am gyflwr o ddihelprwydd, cyflwr o ddibyniaeth, pan y mae'n rhaid wrth wasanaeth pobl eraill. Dyma'r henaint sy'n ymddangos mor annymunol, sy'n cymell y weddi a glywir yn cael ei adrodd mor fynych, "Ni charwn i fyw i oroesi fy nefnyddioldeb. Yr wyf am farw yn yr harnes." Pan feddyliwn am hynny oll, o'r braidd y gallwn ryfeddu wrth yr anwariad sy'n gosod terfyn ar ei henaint trwy hunan-ddinystr.

Ac eto y mae yna henaint sy'n ymestyn i fyny at nerth, yn lle syrthio i lawr at wendid. Y mae yna fynd yn hen sydd yn dyfod megys bendith. Y mae yna henaint sy'n awgrymu tawelwch oriau'r hwyr. Mae'r arluniwr wedi llwyddo i baentio yr hauwr, ond y mae yna brydferthwch a swyn cyfriniol yn ymollwng i lawr oddiamgylch i haf tesog ein awyrgylch meddwl-gynyrchiol ni sydd hwnt i allu yr arlunydd ei ddesgrifio. Er anhawdded yw desgrifio symudiad ar ganfas neu mewn marmor, nid yw mor anodd a chynrychioli gorffwys. Fe welir gogoniant pennaf athrylith Raphael yn ei ddarluniau diweddaraf, lle y gesyd ger ein bron, nid symudiad, nid ymryson, ond heddwch, tawelwch. Fe ruthra'r afon, daw i wrthdarawiad ag ynysoedd, ymwthia dros rwystrau, treigla i lawr y rhaiadr, ond fel y mae yn nesu at y mor, daw yn dawel, yn esmwyth, ac yn y diwedd cyll bob

---

[Pregeth a draddodwyd gan y diweddar Barch. Jenkin Lloyd Jones, yn Chicago, Rhagfyr 31, 1882, oddiar y geiriau, "Ac Abraham a fu farw mewn oed teg, yn gyflawn o ddyddiau; ac efe a gasglwyd at ei bobl." —*Genesis xxv. 8.*

brys, fel y mae yn nythu yn mynwes y dyfnder mawr. Felly y mae gydag Afon Bywyd. Amser yw'r peilot, ac fe hwylia'r cwch dynol, os gwasanaethir ef yn iawn, drwy ei rydiau gwylltion, heibio i ynysoedd mil o demtasiynau, dros glogwyni gwylltineb, ffrydiau berw afradlonedd, lawr i St. Lawrence Bywyd, i'r culfor eang, ac yna i'r eigion anheifynol. Perthyn i ienctid ei aflonyddwch, ei nwydau gyda'u drai a'u llanw. Os dwg lawenydd terfysglyd, fe ddwg boen tymhestlog hefyd. Mae i blentyndod ei brofedigaethau tost, ei waeau lawer, ei ddagrau chwerwon. Mae pob plentyn a enir i'r byd yn fath o ysbryd aflonydd mewn caethiwed. Fel aderyn mewn *cage*, mae'n curo ei adenydd ar draws y *wires*. Plentyndod, dihelprwydd yw, heb y gras o ymostyngiad ; henaint, plentyndod yw gydag adgof—plentyndod gyda phrofiad. Mae machludiad haul yn ddisglaer ac mor arddeirchog a'i godiad, gyda rhywbeth o wres canol ddydd yn oedi yn yr awyr. Y machlud, y codiad yw gyda'r oerfel wedi ei gymryd i ffwrdd. Dyna ddichon henaint fod, ac mae'n dda gennyf i ychwanegu dyna yw yn fynych. Gwelwn y penwyn bob dydd yn coroni ein dyddiau ni a nerth, yn ogystal ag yn arddangos pen-wendid. Yr wyf wedi eistedd lle mae gwynebau crychiog yn dangos corongylch o brydferthwch dros fy llwybr, y fath na syrthiodd erioed oddiwrth rasusau morwyndod. Yr wyf wedi gweld hen bobl a'u pwys yn drwm ar eu ffon, eto eu hunain yn golofn o nerth i'r gwan—yn brif gynhaliaeth yr ardal lle'r oeddynt yn byw. "Oedran teg" yw ymadrodd y Beibl am y cyflwr hwn. Gwnaeth Plato, Angelo, Goethe, a Von Humboldt, bob un o honynt wasanaeth arddcrchog i'r byd yn yr wythfed degaid eu bywyd. Yn yr henaint hwnnw a ofnir gan rai yr oeddynt hwy yn cyfrannu trysorau o brydferthwch bythol i ystorfa dynolryw. Pa bryd y mae'r "dyddiau blin" y sonia llyfr y Pregethwr am danynt, y rhai "nid oes dim diddanwch ynddynt," pan gawn ni Newton yn 85 yn casglu cregyn gwybodaeth ar draeth mor anfesurol gwirionedd ; pan gawn ni Ledi Somerville a Carolina, merched yn anlynyddau diweddaf eu bywydau hir yn ymgodymu a phynciau dyrys mesuroniaeth a seryddiaeth, gan gystadlu ag enwogion mwyaf eu hoes. "Dyddiau blin?" Gawn ni son am Wordsworth, yn marw yn 80, ac eto yn nawnddydd ei allu barddonol. Wrth feddwl am y rhai hyn, llawer gwell yr ymadrodd arall—"Oedran teg." Mae'r help gwerthfawrocaf sydd wedi syrthio i'n rhan ni yn yr oes hon wedi dod, nid oddiwrth brydferthwch llawen y ferch ifanc, nac oddiwrth nerth eofn y bachgen ifanc, ond yn hytrach oddiwrth ein gweledyddion penwyn.

Wele yma, gan hynny, ddau ddarlun o henaint—un anhapus, tuchanllyd, gwag ; a'r llall yn glir ei feddwl, cryf ei yspryd, gwasanaethgar, dedwydd. Un ar ei ogwydd i waered tua'r bedd, a'r llall tuag i fyny at gyflawnder ienctid bythol. Mae'r ddau ddarlun oddiwrth fywyd. Eu cysoni yw cysoni y gwrthebion sylfaenol mewn athroniaeth. Ai cynnyrch mater yw bywyd? Ai offeryn bywyd yw mater? At y naill neu'r llall mae pob un yn anocheladwy yn tueddbennu. Pa un? Mae'r naill yn golygu tyfiant, a'r llall ddadfeiliad ; y naill yn addfedu, y llall yn pydru ; y naill yn gwrthdystio yn barhaus yn erbyn yr athroniaeth fateryddol trwy godi i fod uwchlaw holl amgylchoedd mater, tra'r llall yn ein gadael yn wastad gydag amheuaeth trist a ydyw meddwl dyn yn rhywbeth mwy na gwreichionen o ffosfforus—cyfuniad ffodus o fymrynau. Yr "oedran teg" a gyrhaedda'r anfarwolion, math o seren Bethlehem yw, sy'n arwain y doethion at y preseb diflannol, yn yr hwn y cafwyd y Plentyn Anfarwol, mab y Brenin Tragwyddol. Y "dyddiau blin," awgrymant y telpyn clai, wedi ei lunio gan alluoedd allanol. Pa un ydym ni?

"RHYDDID, GWIRIONEDD, CARIAD."

# YR ⊛ YMOFYNYDD.

CYLCHGRAWN MISOL Y GYMDEITHAS UNDODAIDD GYMREIG.

GOLYGYDD—
Y PARCH. T. ARTHUR THOMAS, LLANDYSSUL.

"PROFWCH BOB PETH, DELIWCH YR HYN SYDD DDA."

CYFRES YR UGEINFED GANRIF.

CYFROL 18.
1918.

LLANDYSSUL:
ARGRAFFWYD GAN J. D. LEWIS, GWASG GOMER.

## CYNHWYSIAD.


Adolygiadau, 41, 118, 151, 170, 185.
Ar Edyn Ffydd, 43, 129, 145.
Arholiad Ysgolion Sul, 106.
At Half Mast, 149.

Ble Ma Fa? 54.
Buddugoliaeth, 178.
Bywyd Cyflawn, 114.

Cael a Rhoi, 123.
Casgliad o Emynau a Thonau, 118, 151, 170, 185.
Colofn y Golygydd, 160.
Cyfarfodydd y Gymdeithas Undodaidd, 73, 139.
Cymanfa Ganu Morganwg, 74.
Cymanfa Gerddorol Ceredigion, 107.

CONGL YR AWEN—
Beddargraff, 47.
Chwys, 47.
Cofia Dy Greawdwr, 144.
Disgwyl, 47.
Dinystr Sennacherib, 145.
Diolch am y Cynhauaf,
Diwedd Blwyddyn, 186.
Duw sydd Noddfa, 133.
Esgyn a Chanu, 129.
Gwreichion o Ganwyll y Cymry, 64
Lloer y Cynhauaf, 144.
Llygad y Dydd, 47.
Myned Heibio, 181.
Pethau Da, 48.
Ti elli fod yn Gymro, 47.
Y Bedd Pell, 84.
Yn Amser Adfyd, 80.
Yr Ysgolfeistr, 12.

Dadleuaeth, 33.
Darllen, 37.
David Davies, Castellnedd, 80.
Deffroad yn yr Eglwysi, Yr angen am, 134.
Dwy Ochr y Ddalen, 72.

Enwadau Efengylaidd, Yr, 156.

Ffosil, Y, 89.

German, Duw y, 182.
Gweddi, 32.
Gwir Brydferthwch, 105.

Hanner Can' Pwynt dros Undodiaeth, 26.
Holiadau Duwinyddol, 143.
Hiwmor mewn Llenyddiaeth Gymreig, 21, 58, 70, 91, 120.
Hymbyg, 82.

Jerusalem dan Faner Newydd, 42.
John Huss, 97.

Lloyd Jones, Y Parch. Jenkin, 127, 165, 187.

Maddeuant Pechodau, 146.
Maes y Gad, 36.
Manion ac Hanesion, 15, 31, 44, 63, 79, 95, 126, 142, 159, 192.
Marwgofion, 13, 28, 60, 76, 93, 109, 124, 141, 157, 174, 189.
Mewn Cymundeb a Natur, 103.

O Faes y Frwydr, 8, 23, 85, 102
Oddiar y Twr, 1, 17, 49, 130.

Paul ar Fryn Mawrth, 152, 167.
Priodasau, 13, 44, 75, 109, 157, 173, 188.

Rhyfeddodau Gwyddoniaeth, 32.

S. O. S., 39.

Victor Hugo ar Heddwch, 80.

Y Byd a'r Bywyd Hwnt, 56.
Y Falwoden, 116.
Y Ffenestr a'r Cerdyn, 10.
Ysgol Sul, Yr, 65.
Yr Iddewon, 16.
Yr Arwr, 137.
Yr Ochr Arall, 172.

Gadewch i ni fanylu i gael gweld a allwn ni ddod o hyd i rai o'r telerau y gellir ennill yr "oedran teg" hwn.

1. *Yr Anianol.*—Ni wna'r tro i anwybyddu yr anianol. Mae pob amharch ddangosir i ewyllys Duw yn sicr o fod er niwed i ddyn. Gochelwn beidio arwyo *(mortgage)* blynyddau ein dyfodol i bleserau diflanol. Nid oes modd gochelyd uchel-sirydd Duw, yr hwn yn y ffurf o ddeddfau anianol anhyblyg a ddaw yn annisgwyliadwy ac a gaua'r arwyeth (*will foreclose the mortgage*) pan fyddoch chwi yn analluog i dalu. Yr hwn ni ymwada ag unrhyw chwant a fydd yn y man heb yr un chwant i'w foddhau. Os yr ydych am oedran teg, yna rhaid i ni ofalu am ein cyrff.

2. *Y Meddyliol.*—Er mai corff iach yw'r amod cyntaf, mae yn mhell o fod yr unig un angenrheidiol i "oedran teg." Mae y rhai hynny yn gosod *mortgage* anobeithiol ar henaint, pan yn gofalu am eu cyrff ar draul eu deall. Mae meddyl-ddrychau yn gwbl mor angenrheidiol a bara i wrryw neu fenyw. Mae llafur pen yn ffafriol i iechyd. Mae taflennau hirhoedledd yn ffafrio y rhai hynny sy'n byw fwyaf yn y *storey* uwchaf. Pan fo'r pren afalau yn peidio tyfu, mae'r ffrwyth yn dechreu lleihau. Ni ellwch aros yn yr un fan. Os na fyddwch yn tyfu i fyny, rhaid i chwi dyfu i lawr. Peidio myfyrio yw dechreu gwaeth-ygu. Ni all fod gan henaint fawr atdyniad i un sydd a'i holl ddyddor-deb wedi ei ganoli yn yr hyn a elwir ganddo yn "fusnes." Nid oes gennyf fi'r un cweryl gyda'r casglwr arian. "Gwyn fyd y doleri," meddaf fi, a dywedaf hynny gyda phob parch. Mi ddymunwn petai gennyf fi ragor. Ond gwae'r hwn y mae ei fywyd yn ymgyfyngu i un rhigolyn o weithred-iadau. Os bydd dyn am wneud un peth yn dda, rhaid iddo rywbeth am lawer o bethau. Yr hwn sy'n foddlon ar un meddylddrych a ddaw i'w ddiwedd yn fuan heb fod ganddo un.

Pan yn mynd i fyny ac i waered y wlad hon, nid wyf yn cwrdd ag un olygfa fwy trist na gweld dynion mewn cadwraeth dda, dynion a chanddynt swm da yn y Banc, yn ceisio mwynhau eu hunain, heb fod ganddynt ystor mewn meddyl-ddrychau, dim *bonds* taladwy yn ariandy dealldwriaeth. Wrth gwrs, nid wyf yn golygu safon allanol o wybodaeth neu gwrtaith. Rhaid i'r hwn sy'n brysio yn nghyfeiriad "oedran teg" sylweddoli nad oes neb yn rhy hen i ddysgu.

3. *Yr Ysprydol.*—Ni all neb fynd yn hen yn raslawn ac ardderchog heb galon garuaidd, canys pa beth bynnag arall sydd yn marw, y mae cariad yn byw byth. Pa beth bynnag arall sydd yn gwywo, mae dyled-swydd yn parhau yn fythwyrdd. Mae iechyd corff, cyllid llawn, a deall wedi ei storio'n dda, oll yn rhy rad i'w prynu drwy ddarllen cymaint ag un ddyledswydd, hyd y nod y mwyaf cyffredin. Rhoddwch i mi y llawenydd sydd yn stor i'r ffydd-loniaid.

Os am heneiddio yn anrhydeddus, meithrinwch frwdfrydedd eich natur foesol, fel y gellwch wybod trwy brofiad ystyr y gair hwnnw na fedr neb ei esbonio i chwi—ysprydoliaeth. Credaf ei fod yn ddymunol i estyn allan gylch ein bodolaeth ddaearol nid yn unig i'r *tri* ugain a deg, ond ysgatfydd i'r *pedwar* ugain a deg, ac eto mi ddywedwn yn ystyriol nad yw'r henaint ddim yn werth ei brynu, os caniateir i ryw gallineb hunangar gilgwthio i'r neilldu holl ysbrydoliaeth cariad diduedd. Galar-wn fel y mynnwn angeu cynamserol, eto rhoddwch i mi ddeng mlynedd ar hugain prydferth wedi eu llanw a swyn sydd yn awgrymu pethau da yn hytrach na phedwar ugain mlyn-edd o flynyddau gwael.

"Arglwydd, na ad i mi fyw bywyd di-ddefnydd," oedd gweddi John Wesley, a gweddi ardderchog oedd. Pan fyddwn yn arbed egnion bywyd er mwyn cynyddu ein defnyddioldeb, mae yn beth dwyfol, ond pan fyddwn yn eu harbed yn unig er mwyn estyn

ein dyddiau, nid ydyw hynny ond anifeiliaeth. Yr wyf fi fel un yn falch fod Channing wedi llosgi'r olew yn ei lamp yn dri-ugain a dwy, yn hytrach nag estyn parhad o fflam drwy leihau y llosgiad. Yr hyn oedd eisieu ar y pryd oedd lamp o ddisgleirdeb mawr. Yr wyf yn falch i Starr King ymdaflu mor llwyr i'r ymgyrch gwladgarol yn 1861, hyd yn oed er iddo orfod gorwedd i lawr a marw ar derfyn chwe' mis fel canlyniad, oblegid trwy hynny fe achubodd California i'r Undeb. Gallai Iesu fyw yn hwy pe gochelasai, pe'r ymddiheuradasai, cyfaddodasai, ond nid yw yn canlyn y byddai byw i well pwrpas. Dim ond trwy defosiwn y daw'r llawenydd uwch. Nid yw crefydd wedi'r cwbl yn rhywbeth i'w brofi fel problemau yr Euclid. Mae ei wirioneddau y tu hwnt i eglurhad y deall. Pethau ydynt i'w dangos trwy esiampl. Drwy anfarwoldeb, nefoedd ac enaid, nid ydynt ond dansoddiadau di-fywyd pan edrychir arnynt trwy ffenestri'r deall; ond oddiar uchelfannau teyrngarwch deuant yn wirioneddau byw, a chawn fod crefydd yn adlewyrchu goleuni Duw, yn debyg fel mae'r diemwnt yn adlewyrchu goleu yr haul. Ei chysuron a ddeuant yn ffeithiau cadarn profiad.

Sut, ynte, y gallwn ni ochelyd y "dyddiau blin" a chyraedd yr "oedran teg." Dyma fy ateb – Parchwch y corff, gwrteithiwch y meddwl, taniwch y galon, ac uwchlaw pobpeth byddwch byw yn odidog, heb ofalu dim yn nghylch henaint ei hunan. Byddwch byw yn y cyfryw fodd fel os daw henaint i'ch rhan y bydd yn rhaid iddo ddwyn gydag ef y fendith o dangnefedd; ac os na fydd hir ddyddiau, boed i'n gorchwylion gael eu trefnu yn y fath fodd, fel pa bryd y daw'r wys i'n galw, y cant eu gweinyddu yn iawn. A oes ymhennydd gennym? Caffed y byd les oddiwrtho yn awr. A oes cariad gennym? Rhodder ef yn hael heddyw. A oes arian gennym? Buddsodder yn y fath fodd fel bo raid i eraill a ddeuant ar ein hol weithio yn well am ein bod ni wedi byw. Boed ein blynyddau ond megys scaffaldau oddiar y rhai y codwn dwr anniflannol cymeriad da, yn yr hwn yr adeiladwn gyfalaf pentyredig bywyd, ar ben yr hwn y safwn yn y diwedd, yn annibynol ar holl scaffaldiaeth materol dyddiau, misoedd a blynyddau. Yna aiff ein bywyd i lawr nid y tucefn i orllewin tywyll, ond yn debyg i'r seren fore todda ymaith yn ngogoniant dydd newydd.

---

## "HANNER CAN PWYNT DROS UNDODIAETH."

### 50.--Undodiaid Enwog.

Bu llawer o ddynion a benywod enwog yn Undodiaid. Y mae'r nifer allan o bob cyfartaledd i rif yr addolwyr yn yr ychydig eglwysi Undodaidd ym Mhrydain a'r Amerig.

Gellir rhannu Undodiaid yn ddau ddosbarth. (1) Y rhai a anwyd i'r cymundeb ac oeddent yn ddyledus am lawer o'u datblygiad i'r rhyddid yn yr ymchwil am wirionedd a feithriniwyd gan eu crefydd ac i'r bwyslais a osodai ar gymeriad (2) y rhai a atynwyd at Undodiaeth mewn edmygedd o yspryd didwyll a diofn ei addysg.

Dylesid cadw ar gof fod y dynion yn y rhestr ddilynol a oedd yn byw ddwy neu dair canrif yn ol heb gyrraedd safle Undodwr heddyw, ond dalient fod athrawiaeth y Drindod yn anysgrythurol.

### Merthyron ac Arwyr

George von Parris, llosgwyd yn Smithfield 1551.
Michael Servetus, a ddarganfu gyntaf gylchrediad y gwaed, llosgwyd yn Geneva trwy orchymyn Calvin, 1553.
Patrick Patingham, llosgwyd yn Uxbridge 1555.
Matthew Hamont, llosgwyd yn Norwich 1579.
John Lewes, llosgwyd yn Norwich 1583.
Peter Cole, llosgwyd yn Norwich 1587.
Francis Kett, llosgwyd yn Norwich 1589.
Bartholomew Legate, llosgwyd yn Smithfield, Mawrth 18, 1612. Dyn dysgedig yn yr Ysgrythyrau. Ceisiodd y brenin James ei droi yn 'uniongred.'
Edward Wightman, llosgwyd yn Lichfield, Ebriil 11, 1612, y dyn diweddaf i gael ei losgi yn Lloegr am heresi.
John Bidle, sylfaenydd y gynulleidfa Undodaidd (addefedig) gyntaf yn Lloegr. Condemniwyd i farwolaeth, a bu farw yng ngharchar 1662.

### Gwyddonwyr a Darganfyddwyr

Syr Isaac Newton, m. 1727, darganfyddwr deddf dysgyrchiant.
John Dollond, m. 1761, darganfyddwr yspienddrych afliwiog.
Josiah Wedgwood, m. 1795, crochenydd.
Joseph Priestley, m. 1804, darganfyddwr *oxygen.*
Thomas Wedgwood, m. 1805. Arloesydd gwawl-arluniaeth.
Syr Charles Lyell, m. 1875, daearegydd.
Charles Darwin, m 1882, addysgwyd mewn cartref Undodaidd.
William B. Carpenter, m. 1885. Anianofydd meddyliol.

### Ysgrifenwyr, Athronwyr, Beirdd

John Milton, m. 1674, bardd.
John Locke, m. 1704, athronydd.
William Roscoe, m. 1831, bardd a hanesydd.
Charles Lamb, m. 1834, traethodwr.
Samuel Rogers, m. 1855, bardd.
W. H. Prescott, m. 1859, awdur Hanesion Gorchfygu Peru a Mexico.
Nathaniel Hawthorne, m. 1864, nofelydd.
Mrs. Gaskell, m. 1865, nofelyddes.
Charles Dickens, m. 1870, nofelydd a fu am rai blynyddoedd yn aelod o Gapel Little Portland Street, a ddesgrifiodd Undodiaeth fel 'crefydd sydd a chydymdeimlad a dynion o bob credo, ac ni faidd roi barn ar neb.'
J. L. Motley, m. 1877, awdur 'Codiad Gwerin-lywodraeth yr Iseldiroedd.'
William Cullen Bryant, m. 1878, bardd.
Samuel Sharpe, m. 1881, Eifftydd â Chyfieithydd y Beibl.
Ralph Waldo Emerson, m. 1882, athronydd a bardd.
Henry W. Longfellow, m. 1882, bardd
Louisa May Alcott, m. 1888, awdur 'Little Women.'
George Bancroft, m. 1891, hanesydd.
James Russell Lowell, m. 1891, bardd
Oliver Wendell Holmes, m. 1894, bardd.
Julia Ward Howe, m. 1910, ysgrifenydd.

### Dyngarwyr a Diwygwyr.

Thomas Firmin, m. 1697, sefydlydd Ysbyty Sant Thomas, Llundain.
Thomas Cogan, m. 1818, cyd-sefydlydd Cymdeithas Drugarog Frenhinol.
William Smith, m. 1835, 'Brenin yr Ymneillduwyr,' a thaid Florence Nightingale.

John Pounds, m. 1839, coblwr o Portsmouth, a sefydlydd Ysgolion y Tlodion—The Ragged Schools.

Joseph Tuckerman, m. 1840, sefydlydd y Genhadaeth Gartrefol i Dlodion Lloegr a'r Amerig.

Robert Hibbert, m. 1849, sefydlydd yr Hibbert Trust.

Catherine Wilkinson, m. 1860, 'Catherine o Lynlleifiad,' dechreuydd golchdai cyhoeddus a baddonau.

Southwood Smith, m. 1861. Arloesydd diwygiad gweithfaol, 'un a ddug awyr, golau a iechyd i'r cartref.'—*Leigh Hunt.*

S. G. Howe, m. 1876, addysgydd y dall a'r byddar.

Mary Carpenter, m. 1877, sylfaenydd Ysgolion Diwygiadol i Ferched.

Dorothea L. Dix, m. 1887, 'Florence Nightingale yr Amerig,' a hyrwyddodd well triniaeth i'r Gwallgofion.

Syr James Stansfeld, m. 1898, 'campwr gwreictod.'

Syr Henry Tate, m. 1899, sefydlydd y Tate Gallery.

William Rathbone, m. 1902, desgrifiodd Florence Nightingale ef fel 'un o feibion goreu Duw,' sefydlydd 'Cymdeithasau y Famaeth Leol.'

Frances Power Cobbe, m. 1904, cyfeilles anifeiliaid mud a diwygwraig gymdeithasol.

Syr Sydney Waterlow, m. 1906, rhoddwr Waterlow Park, Llundain.

PREGETHWYR UNDODAIDD.

Theophilus Lindsey, m. 1808. Rheithor Cattraeth, sefydlydd y capel Undodaidd cyntaf, Essex Street, Strand.

William Ellery Channing, m. 1842. Dywedodd Deon Stanley: 'Rhaid i bob un a ewyllysio ymarfer dylanwad parhaus tros y dyfodol i anadlu, mwy neu lai, o yspryd a fywiogai yr athronydd Cristionogol gwir hwn.'

Theodore Parker, m. 1860, 'Un o eneidiau uchaf a disgleiriaf yn hanes yr Amerig.'—*Lord Chief Justice Coleridge.*

James Freeman Clarke, m. 1888, 'Deg Crefydd Fawr,' 'Crefydd Feunyddiol.'

Charles Beard, m. 1888, 'Y Diwygiad yn yr unfed-ganrif-ar-bymtheg,' 'Llwybr yr enaid at Dduw.'

John Hamilton Thom, m. 1894, 'Rheolau bywyd yn ol meddwl Crist,' 'Ffydd Ysprydol.'

James Martineau, m. 1900, 'Efrydiaeth Crefydd,' 'Ceisiadau am y Bywyd Cristionogol,' 'Sedd awdurdod mewn crefydd.' 'Yn yr oll o'r bedwaredd ganrif ar bymtheg ni bu byw dyn o feddwl mwy treiddiol, o ddychymyg coethach, o gymeriad tecach, o yspryd puraach, na James Martineau.'—*Dr. Fairbairn.*

Edward Everett Hale, m. 1909, Caplan i Senedd yr Unol Dalaethau, a sylfaenydd Clwbiau 'Rho help llaw' (Lend a Hand).

## MARWGOFION.

---

TACHWEDD 15, yn 26ain oed, bu farw Sarah, anwyl ferch Jane Jenkins, Cadwgan Place, Aberayron, a'r diweddar J. D. Jenkins, gynt o Rhydybannau, Cribyn, ar ol cystudd byr. Yr oedd mewn gwasanaeth yn Llundain er's amryw flynyddau. Ychydig gyda phythefnos cyn ei marwolaeth, cymerwyd hi yn glaf gan yr anwydwst, yr hwn a ddatblygodd i enynfa yr ysgyfaint ; a bu farw ar y dydd a enwyd yn Nghlafdy Willesden. Gadawodd mewn galar dwys ar ei hol fam, tair chwaer, ac un brawd (yr hwn, y pryd hynny, oedd yn garcharor yn Germani, ond yr hwn sydd erbyn hyn wedi dychwelyd), ynghyd â nifer luosog o berthynasau agos. Dygwyd ei gweddillion gyda'r gerbydres i orsaf Llanbedr dydd lau canlynol, ac oddiyno i gladdfa Cribyn, lle y gosodwyd hwy i orffwys yn ymyl ei thad. Anghyhoedd oedd y cynhebrwng. Yr oedd yr arch yn orchuddiedig gan bleth-dorchau wedi eu rhoi gan berthynasau a'i chyfeillion yn Llundain. Yn Llundain, yn absenoldeb y Parch. Elfed Lewis, M.A., oherwydd amgylchiadau teuluaidd, gweinyddwyd gan y Parch. T. F. Jones, eglwys Fethodistaidd Shirland Road ; ac yng Nghribyn, gan y Parch. D. Evaus, gweinidog y lle, a'r Parch. L. Williams. Nerth a gaffo'r fam a'r teulu a'r perthynasau i alaru mewn gobaith.

TACHWEDD 20, yn 23 oed, bu farw David Walter Jenkins, anwyl fab Rachel Jenkins, Blaenwaunganol, a maeth-fab i John ac Elizabeth Jones, Rose Mount, ger Cribyn. Tua phythefnos cyn ei farw syrthiodd i'r tân mewn llewyg, a derbyniodd y fath ar niwed fel y bu ei gystudd yn un rhyfeddol o boenus, ac esmwythyd i deimladau ei berthynasau a'i gyfeillion oedd dyfodiad angeu i'w ryddhau o'i boenau. Yr oedd yn aelod ffyddlon o Eglwys Cribyn, a dygodd ei barchus ficer, yn ei bregeth ddydd ei angladd, glod uchel iddo ar gyfrif ei ffyddlondeb a'i rodiad glân. Cymerodd ei gladdedigaeth le dydd Sadwrn canlynol, ym mynwent Eglwys Cribyn, pryd y daeth nifer luosog yng nghyd i dalu iddo y gymwynas olaf. Yn y ty, a'r Eglwys, ac ar lan y bedd, gwasanaethwyd gan y Parch. R. E. Davies, ficer y plwyf, a gweddiwyd wrth y drws gan y Parch. D. Evans, Cribyn.

TACHWEDD 20, yn 84 mlwydd oed, Mr. David Davies, Glynyrhelig, Llanwenog. Yr oedd wedi colli ei briod er's pedair blynedd, a'i blant fu y blynyddau diweddaf yn gweini iddo. Dyn tawel, heddychol a phawb ydoedd, ac yr oedd gan bawb deimlad da tuag ato yntau. Bu dau o'i feibion yn ngwasanaeth eu gwlad gyda'r fyddin, ond yn herwydd gwaeledd iechyd cafodd un o honynt ei ryddhau. Digwyddodd yr un sydd yn aros yn y fyddin fod gartref pan y bu ei dad farw, a chafodd fod yn ei angladd. Claddwyd y Mawrth canlynol yn mynwent Capelybryn. Gwasanaethwyd gan y Parch. L. Williams, a chynorthwywyd gan y Parchn. D. Evans, Cribyn, a E. Glyn Edwards, Cwrtnewydd. Gadawodd bump mab a phedair merch i alaru ar ei ol.

TACHWEDD 29, yn 13eg oed, bu farw David Jones, anwyl fab Thomas ac Anne Jones, Pantydderwen, ger Llanwnen, ar ol cystudd byr prin bythefnos. Cafodd yr anwydwst Hispaenaidd sydd mor gyffredin, yr hwn a arweiniodd i enyniad yr ysgyfaint ; ac er pob gofal ar du ei rieni a medr meddygol, methwyd rhoi atalfa arno ; a bu farw fel y nodwyd, er galar dwys i'w rieni, a'i dair chwaer, a'i dri brawd (un o'r rhai sydd yn Ffrainc). Er yn ieuanc iawn, mynychai'r Ysgol Sul, y Dosbarth Beiblaidd, a'r addoliad yng Nghapelygroes yn ffyddlon ; a bydd ei le yn

wag iawn ym mhob un o honynt. Claddwyd ei weddillion ym mynwent y capel uchod y dydd Mercher canlynol, pryd y daeth nifer luosog iawn ynghyd i'r cynhebrwng. Gwasanaethwyd gan y Parch. D. Evans, gweinidog y lle, y bregeth yn y capel oddiar Esalah 25 : 8 : "Efe a lwnc angau mewn buddugoliaeth ; a'r Arglwydd Dduw a sych ymaith ddagrau oddiar bob wyneb." Gweddiwyd ar lan y bedd yn dyner iawn gan y Parch. E. Glyn Edwards, Capel Sion. Ymgysured y teulu yn y gobaith mai dim ond dros amser y mae'r gymdeithas wedi ei thorri Rhoddodd aelodau Ysgol Sul Capelygroes bleithdorch ar ei fedd.

TACHWEDD 29, bu farw David Mordecai Williams, Penralltnewydd, ger Llanybyther, yn 34ain oed. Mab ydoedd i'r diweddar T. Gwarnant Williams, Gwarnant, a Rachel, ei wraig, a brawd i'r Parch. T. Oswald Williams, B.A., Llanbedr. Byr iawn fu ei gystudd—tua phythefnos. Cymerwyd ef yn glaf gan yr haint sydd yn ddiweddar wedi peri'r fath ddifrod ar fywydau, yr hwn a drodd yn enynfa'r ysgyfaint. Yr oedd yn adnabyddus i gylch eang o'r wlad ar gyfrif ei alwedigaeth—prynwr anifeiliaid, ac yr oedd wedi ennill ymddiriedaeth a pharch y rhai y masnachai a hwynt ar gyfrif ei unplygrwydd. Tyst o'r parch hwn oedd y cynhebrwng lliosog gafodd ; yr hwn, er mor lliosog ydoedd, fyddai yn fwy lliosog, yn ddiau, onibae am yr afiechyd oedd ar yr adeg mor gyffredin drwy'r wlad. Cymerodd ei gladdedigaeth le dydd Mawrth canlynol ym mynwent Capelybryn, lle y gosodwyd ei weddillion i orffwys yn ymyl ei dad a'i ddau frawd. Pregethwyd yn y tŷ gan y Parch. D. Evans, Capelygroes, oddiar Salm 116 : 3—5 ; a chymerwyd rhan yn y gwasanaethau gan y Parchn. Cellan Evans, L. Williams, ac E. O. Jenkins. Gadawodd mewn galar dwys ar ei ol fam, chwaer a thri brawd, a'r rhai y cydymdeimlir gan gylch eang eu hadnabyddiaeth. Nerth a gaffont i ymdawelu.

RHAGFYR 1, yn 47 mlwydd oed, Mr. Evan Jones, Plasnewydd, Drefach, Llanwenog. Bu y teulu i gyd yn dioddef oddiwrth yr *Influenza* yr un pryd, a dau o honynt, sef yr ymadawedig a'r ferch hynaf, yn dioddef oddiwrth y *pneumonia* hefyd. Mae y fam a'r plant yn gwella. Dyn diwyd a didwyll yn ei waith oedd yr ymadawedig, ac yr oedd y rhinweddau hyn a berthynai iddo wedi enill ymddiriedaeth cylch helaeth o bobl ynddo. Teimla yr ardalwyr eu bod wedi cael colled fawr yn herwydd ei farwolaeth. Claddwyd y Mercher canlynol yn mynwent Alltyblacca. Yn absenoldeb y Parch. D. Morris Jones, Bethel, Drefach, gwasanaethwyd gan y Parchn. L. Williams, J. Davies, a D. Evans. Nawdd y nef fyddo dros y weddw a'i phlant.

RHAGFYR 2, yn 46 mlwydd oed, Evan Lloyd Jones, Rhydowen Old Shop, plwyf Llandyssul. Ni chafodd yr ymadawedig ond cystudd byr iawn. Cafodd ei daro gan y clefyd peryglus sydd yn y wlad yn awr, ysguba ymaith gynnifer o'n pobl ieuainc. Claddwyd yr ymadawedig yn mynwent Pantydefaid, lle y gosodwyd corff ei unig fab ychydig fisoedd cyn hynny. Gwasanaethwyd gan y Parch. T. Arthur Thomas yn cael ei gynnorthwyo gan y Parchn. E. O. Jenkins, a —— John, Brynteg. Gadawodd weddw ac un ferch mewn galar a hiraeth. Nodded y nef fo drostynt.

RHAGFYR 5, yn dair blwydd oed, Lynn, mab bychan Mr. a Mrs. James Evans, Cartref, Alltyblacca. Nid oedd ond tri mis oddiar pan y collasant ferch fechan o'r blaen. Cydymdeimlir yn fawr â hwy yn eu trallod dwfn.

RHAGFYR 6, Miss Mary Edith Williams, Summerville House, Aberystwyth, yn 54 oed. Yr oedd yr ymadawedig yn ferch i frawd ail wraig y diweddar Barch. William Thomas, M.A. (Gwilym Marles), ac felly yn gyfnither i'w blant o'r wraig hono. Pan yn blentyn cymharol ieuanc gwnaeth ei chartref yn nhŷ Gwilym

Marles, ac er i'r teulu symud rhagor nag unwaith nid ymadawodd hi ag ef, a bu farw ar y dydd uchod yn nhŷ Miss May Marles Thomas. Claddwyd y Mawrth canlynol yn ymyl capel newydd Llwynrhydowen. Gwasanaethwyd yn y capel gan y Parch. E. O. Jenkins, ac ar lan y bedd gan y Parch. T. A. Thomas. Yr oedd tair o ferched Gwilym Marles yn bresenol yn yr angladd, sef Miss May Marles Thomas; Mrs. (Lisa) James, a Mrs. (Muriel) Barnard.

"Not lost, but gone before."

RHAGFYR 12, yn 70 mlwydd oed, George Webb Potter, Black Lion Hotel, Aberteifi. Yr oedd yr ymadawedig wedi ymbriodi a merch henaf y diweddar Mr. David Evans, Shop Tregroes, a gadawodd ar ei ol dri mab a phedair merch. Claddwyd ei weddillion marwol yng nghladdfa y teulu ym Mhantdefaid y Sadwrn dilynol. Gwasanaethwyd gan Ficer Aberteifi.

RHAGFYR 14eg, yn 55 oed, yn Llwynhelyg, Cribyn, bu farw Elizabeth Davies, anwyl briod David Davies, Mountain Ash, a merch i'r diweddar William Davies, Gof, Cribyn, a'i briod, Henrietta. Dim ond cystudd byr gafodd, ond ni fu yn gryf ei hiechyd er's blynyddau, a phan y goddiweddwyd hi gan yr anwydwst, methodd ei chyfansoddiad ddal. Gadawodd mewn galar dwys ar ei hol briod, amryw lysfeibion, mam, dwy chwaer, a thri brawd, a pherthynasau agos ereill. Cymerodd ei chladdedigaeth le dydd Gwener canlynol, ym mynwent Llanwnen. Gadawodd le gwag ar ei hol yn y ddau deulu, yr hwn y bydd yn anhawdd ei lanw. Duw a'u diddano yn eu trallod. Gwasanaethwyd yn y ty gan y Parch. D. Evans, Cribyn (y bregeth oddiar Mathew xxiv. 44), ac yn yr Eglwys gan y Parch. J. H. Davies, y ficer.

## MANION AC HANESION.

*Ar ddechreu y Flwyddyn yr ydym am gyflwyno i'n holl ddarllenwyr Flwyddyn Newydd Dda. Hyderwn y bydd yn flwyddyn lwythog o bethau da i'n holl eglwysi ac i'n gwlad.*

CEFNCOED.—Ar derfyn wyth mlynedd o weinidogaeth lwyddianus yn eglwys yr Hen Dy Cwrdd, derbyniodd y Parch. J. Carrara Davies alwad daer i newid ei faes. Ym Mehefin gwasanaethodd yr Eglwys Undodaidd yn Belper, ger Derby, am ddau Sul. Yn effaith i'r ymweliad hwnnw daeth cais unfrydol iddo, yn ddioed, i ymsefydlu yno fel gweinidog. Gwedi cloffi'n hir rhwng dau feddwl, penderfynodd, o'r diwedd, i gefnu ar Gymru a chroesi Clawdd Offa. Mynegodd ei fwriad i'w eglwys a chyda phrudd-der y derbyniodd y newydd. Gorffennodd ei weinidogaeth yn yr Hen Dy Cwrdd ar y 24ain o Dachwedd, pryd y traddodwyd ganddo ei bregeth ymadawol. Ar ol gweinyddu'r Sacrament cynhaliwyd Cyfarfod Anrhegu. Llywyddwyd yn hwn gan Mr. John David Watkins, a throsglwyddodd Mr. John Simon swm sylweddol mewn *Treasury Notes*, ar ran yr eglwys, i Mr. a Mrs. Davies. Cyflwynodd

Miss Nana Jones hefyd rodd o arian i Miss Eluned Davies. Atebwyd mewn geiriau pwrpasol gan Mr. Davies. Bydd ymadawiad Mr. a Mrs. Davies yn golled i'r cylch, a hynny ar gyfrif eu parodrwydd i weithio'n ddiflin dros bob achos da a theilwng. Enillodd Mr. Davies le uchel yn marn a pharch y pentrefwyr. Gwasanaethodd ar amryw o bwyllgorau gyda llwyddiant amlwg. Prawf o hyn yw fod llu o'i gyfeillion wedi manteisio ar gyfle i ddangos eu hedmygedd. Cymerodd y datganiad hwn hefyd ffurf o anrheg. Nos Lun, Tachwedd 25ain, cafwyd Cyfarfod Ymadawol yn Llyfrgell y lle. Wedi i amryw ddoniau ddweyd eu gofid o golli Mr. Davies a'r teulu, anrhegwyd hwy gan y Cynghorwr Joseph Price, Y.H. Cyflwynodd i Mr. Davies *Revolving Chair* dlos, ac *Autograph Album*. Derbyniwyd gan Mrs. Davies ac Eluned *Treasury Notes* o gryn werth. O ganol dymuniadau da yr ymedy'r teulu hwn a phentref y Cefn. Boed i wenau llwydd wneud yn rhwydd eu camrau.

DOWLAIS.—Tra'n canu'n iach ac yn dymuno'n wych i'r Parch. J. Carrara Davies a'i deulu, mynnodd yr Eglwys Undodaidd yn y dref uchod roddi sylwedd gyda'i geiriau. Cyflwynwyd *Wallet* hardd i Mr. Davies, a *Hand Bag* i Mrs. Davies. Am beth amser bellach bu'r eglwys hon dan ofal Mr. Davies, a chymhellwyd egni Miss Lewis, y drysoryddes, a Mrs. Evans, yr ysgrifenyddes i ddangos gwerthfawrogiad o'i lafur ef, a diwydrwydd Mrs. Davies.

HEN DY CWRDD, ABERDAR.—Nos Wener, Tachwedd 22, cafodd aelodau Ysgol Sul yr eglwys uchod wledd o Dê a bara brith fel dathliad o derfyn y rhyfel, ag hawdd oedd deall wrth y gwenu a'r mwynhau y noson yma, fod baich mawr wedi ei symud oddiar ein ysgwyddau. Ar ol tê cafwyd chwareu, ac yr oedd y plant erbyn hyn yn eu hwyliau goreu, a phwy fel hwy at waith fel yma, yr oedd eu gweled felly yn un o'r *tonics* goreu allem gael ar ol y pedair blynedd derfysglyd ag ydym wedi myned drwyddynt. Rhoddwyd y tê gan Mrs. Llewelyn, y Bwllfa; ar y terfyn arllwysodd y plant eu dymuniadau goreu i Mrs. Llewelyn am ei charedigrwydd, trwy roddi iddi dair banllef, a dymuniad am lawer blwyddyn eto i fwynhau yr heddwch sicrheir cyn hir.

LABURNUM HOUSE.—Dyna enw'r tŷ ar Gefncoedcymer, lle bu y Parch. Owen Evans yn byw, a'r lle y bu farw Ionawr 9, 1865. Efe roddodd yr enw newydd ar y tŷ. Yr hen enw oedd Castell Teden (Tydien). Gweler y "Myfyrian Archaeology," tudalen 419. Merch oedd Tydien i Brychan Brycheiniog. Dywedir fod gan Brychan 24 o feibion a 24 o ferched.

Hen sefydliad mynachol oedd Castell Teden (fel y gelwid hi'n lleol) hyd tuag diddymiad yr holl sefydliadau hyn yn amser Harri'r VIII.

Cofiaf Mr. Evans yn dangos carreg i mi, yr hon a gafwyd yn muriau'r hen adeilad, ac arni yn gerfiedig ddarlun o fenyw mewn agwedd anfoesol. Nid oedd yn un *credit* i'r cerfiwr, un o'r mynachod with bob tebyg.

Tueddir fi i gredu mai enwau ar wahanol sefydliadau hwnt ac yma ar draws y wlad yw enwau y ddau 24. Ceir rhai o honynt yn Aberdar, a byddai'n ddyddorol pe gellid lleoli'r lleill.

Tebyg fod yr enw *Castell* Teden yn rhy fawreddog i ateb chwaeth Mr. Evans, ac iddo oblegid hynny ddewis un mwy gwylaidd.

Yn rhifyn Chwefror 1865, ceir y bregeth a draddododd Mr. Evans Rhagfyr 29, 1864, yn y Wig, ac yn yr un rhifyn rhoddir hanes ei farwolaeth.

R. J. J.

---

*J. D. Lewis, Argraffydd, Gwasg Gomer, Llandyssul.*

# Modern Handbooks of Religion

Cr. 8vo. 256 pages. Half-a-Crown each net

Volumes now ready.

**Religion as affected by Modern Science and Philosophy.** By Stanley A. Mellor, M.A., Ph.D.

**Religion in Social and National Life.** By H. D. Roberts.

**The New Testament in the Light of Modern Knowledge.** By H. Mc Lachlan, M.A., B.D.

**Communion of Man with God.** By R. Nicol Cross. M.A.

**Jesus and Christianity in the Twentieth Century.** By Alfred Hall, M.A.

**The Revelation of God in Nature and Man.** By Edgar Thackray, M.A., Ph D.

**The Divine Element in Art and Literature.** By W. L. Schroeder, M.A.

**Eternal Life Here and Hereafter.** By Sydney H. Mellone, M.A., D.Sc.

THE LINDSEY PRESS, 5, Essex St., Strand, London, W.C. 2.

# Funeral Wreaths, Crosses, Harps,

And other designs, at short notice.

WEDDING BOUQUETS, &c.,

. . Fruit Trees, Roses and Shrubs. . .

# HARRY COYSH,

(Successor to the late JOSEPH COYSH, Nurseryman Established 1875.)

**Nurseryman, Seedsman and Florist, Carmarthen.**

Telegrams—Coysh, Carmarthen.

# CHANNING HOUSE.

**High School for Girls and Unitarian Boarding School**

HIGHGATE, LONDON, N.

*Head Mistress: Miss LILIAN TALBOT, B.A. Honours (Lond.),*

To whom all enquiries should be addressed.

Fees per Term: Boarders, £19 5s.; with Music, £21 7s. Daughters of Unitarian Ministers, £10 13s. 6d.; with Music, £12 5s. Day Scholars, Three to Five Guineas. The above Fees include all Classes for London Matriculation, also Drawing & Class Singing.

☞ Good Playground, Cricket, Tennis, Lacrosse.

☞ Opportunities afforded for Sight-seeing in London.

Committee of Management—Mrs. W. Blake Odgers, F. J. Nettlefold, Esq., T. B. Taylor, Esq., W. A. Sharpe, Esq., Miss C. Sharpe, Harold Wade, Esq., Mrs. W. Wooding, R. M. Montgomery, Esq., K.C., Mrs. H. Foster Morley.

# The London City and Midland Bank Limited.

— ESTABLISHED 1836. —

Subscribed Capital .. £24,906,432. Paid up Capital .. £5,188,840.

Reserve Fund .. £4,342,826.

## LIABILITIES AND ASSETS, 31st DECEMBER, 1917.

| | £ | s. | d. |
|---|---|---|---|
| To Capital Paid up, viz :— | | | |
| £2 10s. 0d. per Share on 2,075,536 Shares of £12 each .. | 5,188,840 | 0 | 0 |
| ,, Reserve Fund .. .. | 4,342,826 | 0 | 0 |
| ,, Dividend payable on 1st February, 1918 .. .. .. | 350,246 | 14 | 0 |
| ,, Balance of Profit and Loss Account as below .. .. | 733,785 | 5 | 8 |
| | 10,615,697 | 19 | 8 |
| ,, Current, Deposit & other Accounts | 220,551,768 | 9 | 5 |
| ,, Acceptances on account of Customers .. .. | 8,826,865 | 17 | 6 |
| | £239,994,332 | 6 | 7 |

| | £ | s. | d. |
|---|---|---|---|
| By Cash in hand (including Gold Coin £7,000,000) and Cash at Bank of England .. .. | 44,110,353 | 13 | 10 |
| ,, Money at Call and at Short Notice .. .. | 31,003,560 | 9 | 2 |
| ,, Investments :— | | | |
| War Loans, at cost (of which £408,418 10s. is lodged for Public and other Accounts) and other British Government Securities .. | 33,116,534 | 13 | 6 |
| Stocks, Guaranteed by the British Government, India Stocks & Indian Railway Debentures | 181,789 | 10 | 0 |
| British Railway Debenture and Preference Stocks, British Corporation Stocks .. | 1,774,673 | 4 | 2 |
| Colonial and Foreign Government Stocks & Bonds | 660,352 | 18 | 0 |
| Sundry Investment .. .. .. | 521,463 | 5 | 10 |
| ,, Bills of Exchange .. .. .. | 35,052,991 | 17 | 10 |
| | 146,421,719 | 12 | 4 |
| ,, Advances on Current and other Accounts .. | 68,510,358 | 1 | 9 |
| ,, Advances on War Loans .. .. .. | 12,645,539 | 9 | 0 |
| ,, Liabilities of Customers for Acceptances .. | 8,826,865 | 17 | 6 |
| ,, Bank Premises, at Head Office and Branches .. | 2,837,210 | 6 | 0 |
| ,, Belfast Bank Shares :— | | | |
| 49,688 £12 10 0 Old Shares £2 10 0 paid | | | |
| 148,204 £12 10 0 New Shares £2 10 0 paid | | | |
| Cost .. .. £1,225,908 0 0 | | | |
| *Less* part Premium on Shares issued .. 473,269 0 0 | | | |
| | 752,639 | 0 | 0 |
| | £239,994,332 | 6 | 7 |